

Buddug Medi yn olrhain Teulu'r Price a Stâd y Rhiwlas

Olrheinia'r teulu Rhys neu ap Rhys neu Price eu hachau'n ôl i Farchweithian – sefydlydd llwythau uchelwyr Gogledd Cymru. Disgynnydd i Farchweithian oedd RHYS FAWR, neu Syr Rhys ap Meredith a arweiniodd ŵyr Hiraethog i Bosworth i frwydro dros Harri'r seithfed yn 1485. Rhys Fawr gariodd faner y Ddraig Goch i faes y gad a chael ei wobrwyo am ei weithred mewn tir. Mae delw iddo fo ac i Lowri ei wraig yn Eglwys Ysbyty Ifan lle'r oedd rhai o gartrefi ei deulu – Y Foelas, Giler a Phlas Iolyn. (Daeth Rhys ap Meredith sef Syr Robert ap Rhys, yn gaplan i'r Cardinal Wolsey, ac elwodd yn fawr, wedi diddymiad y mynachlogydd drwy dderbyn tiroedd).

Dyma'r teulu a roddodd nawdd i sawl bardd teulu, yn eu plith, Sion Tudur, ac yn nechrau'r ail ganrif ar bymtheg, Ieuan Tew Brydydd. O bosib, y Rhiwlas oedd y plas olaf yng Nghymru i gadw bardd.

Codwyd y plas presennol ym 1954 wedi i'r plas castellog, llaith, gael ei ddymchwel. Roedd deg ar hugain o ystafelloedd yn yr hen blasty a llosgwyd tunnelli o lo bob dydd i gadw'r tŷ yn gynnes. Dim ond yn y stablau yr oedd gwres. Mae'n amlwg fod yna fwy o



Plas y Rhiwlas cyn ei ddymchwel yn 1953

17oed, aeth William Price i Goleg Crist, Rhydychen. Yn 21oed, fe'i dewiswyd yn Aelod Seneddol dros Feirionnydd. Yn 22oed, priododd Mary Holland, o Ginnel, a oedd yn


amdanynt a gellir gweld y llythyr hwn, dyddiedig Mehefin 12fed 1653, yn y Llyfrgell Genedlaethol. Ar y pryd, amcangyfrif gwerth y Stâd oedd £1,500.

Pan adferwyd Siarl II i'r orsedd, dychwelodd William Price i'r Senedd. Yn Llundain byddai'n codi'n fore, yn mynd i'r capel, yna'n cerdded ym Mharc Sant James gan bendwmpian ar y faine yno. Fin nos, yfai wydriaid neu ddau o glaret drud.

Claddwyd Cynol William Price yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy lle mae cofeb iddo.

Richard Watkin Price 1780 - 1860

Pan ddewiswyd John Davies, gŵr busnes proffidiol o Fronheulog, Llandderfel, yn Ustus Heddwch yn y Bala, arweiniodd Richard Watkin Price Ustusiaid Meirionnydd



Llun olew o'r Cynol William Price sydd ynghrog yn Ystafell fwyta'r Rhiwlas.



Plas y Rhiwlas fel y mae heddiw a adeiladwyd ar yr un safle â'r hen un.

feddwl o'r ceffylau na gweddill y teulu! Mae gen i frith gof o'r hen dŷ. Syr Clough Williams-Ellis oedd pensaer y plas presennol a gellir gweld ei arddull unigryw yma ac acw. Achubwyd distiau derw o'r hen blas ac maent i'w gweld yn neuadd y tŷ presennol.

Bwriedwn yma roi cipolwg ar y stâd drwy fywyd tri sgweiar.

Y Cynol William Price 1619 – 1691

Roedd William yn fab i John Price, Y Rhiwlas, ac yn hanu o deulu Castellmarch yn Llŷn ar ochr ei fam - Elen, neu Elinor, merch Syr William Jones.

Roedd William Price yn fachgen deg oed pan fu farw ei dad. Ym 1636, ac yntau ond yn

ei harddegau. Dywedir fod ei hincwm personol yn £700 y flwyddyn. Mae'n rhaid ei bod yn briodas hapus – cawsant ddwy neu dair o ferched ac ugain mab. Bu rhai o'r plant farw yn eu plentyndod.

Yn 24 oed, ffurfiodd William Price gatrawd ar ei gost ei hun, i frwydro o blaid Siarl I. Prynodd ddillad ar gyfer y milwyr gan eu cuddio mewn tai ar Stâd y Rhiwlas. Ar sail hyn, cafodd gomisiwn gan y brenin a chael ei ddirchafu'n gynol.

Dioddefodd William Price lawer am ei deyrngarwch i'r frenhiniaeth yn ystod Y Rhyfel Cartref. Collodd ei lyfrgell, ond daeth Richard Wyn o Wydir o hyd i rai o'r llyfrau gwerthfawr a'u dychwelyd i William Price. Ysgrifennodd y Cynol lythyr o ddiolch